Awelon

Cyfres Llanbedr | Hydref, 1926. | Cyf. 26. Rhif 10.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. — Y Parch T. Oswald Williams

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
AR DRAWS YR HEOL.
Y GOLUDOG A LASARUS.
YN Y RHIGOLAU.
Y MAES LLAFUR 1926—1927.
GALLT Y WERNDDU.
BEDYDD.
PANTEG A CHWMWRDU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.
Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-. ; Drwy'r Post, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

.. Yr Ymofynnydd ...

Cyfres Llanbedr. HYDREF, 1926. Cyf. XXVI. Rhif 10.

NODION Y GOLYGYDD.

Cymraeg "Yr Ymofynnydd"

YN ystod y mis derbyniais lythyr oddiwrth Ohebydd yn Llundain, a chredaf, er ei fod yn dangos fy anwybodaeth o'r iaith Gymraeg, y dylaswn ei gyhoeddi oherwydd ei fod hwyrach yn cynrychioli barn llu o ddarllenwyr "Yr Ymofynnydd," a goreu po gyntaf inni ddeall ein gilydd.

"Cymmraeg Yr Ymmofynnydd.

"I fod yn gyson, dylasai Cymraeg y misolyn elwid unwaith "*Yr Ymofynydd* ond yn awr elwir "Yr Ymofynnydd" fod "rywbeth tebyg i hyn :

"'Ar dro, cred-daf y dylassai'r Gol-lygydd gael gwyl-liau ac "er dangngos fy mod o ddif-frif yn fy nghred, penderfynnais "beidio ysgrifennu nod-dion am y tro ond mynd yn hyttrach ar "grwydr hwnt ac ymma gan ddywed-dyd fy meddwl heb ofni "diggio neb.'"

"What do these humorous pedantries mean :
"menter, mohoni, problem economeg, cenhedloedd, innau,
"buasid, amdanynt, inni ?

"What is the difference between i ni and inni ?

"Why two "n's" in cynnwys and only one in "tanio" ?

"Pray Mr. Editor do not bring ridicule upon our glorious old "language by doubling consonants where there is no etymological "reason for doing so !

"The 'Welshification' of English terms especially where good "Welsh words are available, or where they could be easily coined, "strikes a thorough Welshman as an indication of either foolish "pedantry or else pitiable ignorance.

An old reader of Yr Ymofynydd."

Wedi derbyn y condemnio diarbed hwn, bum ar ymddiswyddo, oherwydd nid o'm bodd y llurguniaf i hen iaith fy aelwyd a hen iaith fy mam—iaith lefaraf, iaith a garaf i'r gweryd.

Nid coegddysg ffol mohoni ond anwybodaeth os anwybodaeth hefyd. Gwn y maentumir gan wŷr yn nes yma o lawer na Llundain. na ŵyr gwŷr y colegau ddim am y Gymraeg. Na chreder na fedrid ateb fy ngohebydd. Nid yw yn fy mwriad i'w wneuthur y tro hwn. Digon gennyf yw ceisio'i hysgrifennu hyd y medraf, nid yn ol mympwy coegddysgeidiaeth ond yn unol a'r traddodiad llenyddol Cymraeg, a oedd yn bod ganrifoedd cyn ffurfio'r safonau newydd y twng fy ngohebydd wrthynt.

* * *

Gofyniadau'r Nation a'r Daily News.

Yn y papurau newydd y mae yna rhyw 14 cwestiwn wedi'u rhoddi er gweld barn y darllenwyr am grefydd. Ni cheir ateb ond oddiwrth rhyw bymtheg mil ac awgrymir y petrusa dyn ddosrannu'i feddyliau am grefydd. Ni fedrir rhoi ateb pendant ar lawer cwestiwn ond y mae'r atebion yn dangos y cyfeiriad y mae meddwl yr oes yn gymryd. O gymryd yr atebion drwodd a thro, gwelir fod mwy yn credu mewn rhyw ffurf o Gristionogaeth nag sydd yn mynychu gwasanaeth crefyddol yn rheolaidd, fod mwy yn mynd i addoliad cyhoeddus nag sydd yn aelodau gweithgar yn unrhyw eglwys ac fod mwy o aelodau gweithgar nag sydd o gredinwyr yng Nghredo'r Apostolion na chyffes ffydd unrhyw eglwys.

Cyn belled ag y mae'r prif gwestiynnau'n mynd megis cred ym modolaeth Duw personol, *sylwedd* anfarwoldeb personol, gwirionedd cyffredin Cristionogaeth a gwerth gwasanaethau crefyddol y mae rhyw saith o bob deg yn uniongred. Y mae'n werth aros gydag ambell gwestiwn megis "*A gredwch fod Iesu Grist yn ddwyfol* (divine) *mewn ystyr na ellir dywedyd fod pob dyn yn ddwyfol?*" Y mae'r cadarnhaol gan naw mil a hanner a'r nacaol gan bedair mil, a cheir yn agos yr un ateb i'r gofyniad "*a ydyw'r Beibl yn ysbrydoledig mewn ystyr na fedrwn ni ddywedyd fod ein Llenyddiaeth yn ysbrydoledig?*" Ar y llaw arall y mae darllenwyr y "*Nation*" drwy 819 ymhen 474 yn amau fod dwyfoldeb Iesu'n wahanol i'n heiddo ni a thrwy 918 ymhen 377 yn amau ysbrydoliaeth y Beibl. Nid yw'r atebion yn llawn ond y maent yn awgrymu fod yna ryw symud ym myd Crefydd a'r symud hwnnw i gyfeiriad rhyddid mwy. Awgryma'r atebion y sydd gan y dyfodol inni. Ni fedrir gwrthod casgliadau y galon onest a'r meddwl goleuedig. Rhyw genhedlaeth yn ol amheuid pennod gyntaf Genesis ond erbyn heddiw y mae Credo'r Apostolion wedi mynd. Myn yr Esgob Barnes fod "dydd

amddiffyn safleoedd amheus drosodd. Nid oes amau parthed cymeriad a mewn-weledíad ysbrydol Iesu. Y mae'i ddysgeidiaeth am natur Duw a dyledswydd a thynged dyn yn berffaith glir. O'i reddf ysbrydol y cododd y syniad am Deyrnas Dduw. Ai nid oes dim ynom yn ateb i'r fath ddysgeidiaeth ? Cyn belled ag y mae bywyd yr ysbryd yn sylwedd ym mywyd unrhyw ddyn, y mae rhywbeth sy'n ei dynnu at Iesu gan beri iddo gael yn sicrwydd ysbrydol Iesu rhyw awdurdod gorfodol."

* * *

Yr Almaen a Seiad y Gwledydd

Yr unig fan gwyn yn hanes y gwledydd yw dyfod o'r Almaen yn aelod o Seiad y Gwledydd yn Geneva. Nid yw hynyna ond agor drws. Nid yw'r ffaith ei bod yn aelod yn dywedyd y gellir penderfynnu pob cwestiwn ar unwaith mwy ond hyd nes yr agorid y drws iddi ni fedrid eu penderfynnu o gwbl. Ni ddaw ysbryd Iesu fel hud, ond yr oedd croeso M. Briand yn bopeth a ellid ei ddymuno pan ddywedai " Ymaith a'r drylliau, a'r peiriant ddrylliau a'r gynnau mawrion. Gwnewch lwybr i gymod, i gyfflafareddiad ac i heddwch."

Y mae'r cam yn un pwysig. Y mae'r Almaen heddiw yn gydymaith ac nid gwrthwynebydd. Nid rhywun peryglus oddiallan i'w gwylio a chynllwyno yn ei herbyn ond dieithryn tu fewn i'r pyrth yn gweithio dros yr amcanion a'r gobeithion a'r gweithgarwch cyffredin.

Ni ellir amau ei gallu. Maentumir y bydd wedi adennill ei chyfran o fasnach y byd erbyn y flwyddyn 1928. Os ydyw ei chalon yn ei lle, os defnyddia'i gallu fel cenedl i'r amcanion iawn a heddychol, fe ddaw *diarfogi* yn gwestiwn y dydd a medr gwerinoedd y byd edrych ymlaen at gyfnod pan fyddo " heddwch yn llifo fel yr afon a chyfiawnder fel tonnau'r mor." Gobeithio mai felly y bydd ond pwy wyr ?

TY TO GWELLT.

Cydfuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, 1926.

Dy f'hendaid llwyd ei fondo,—a'i glydwch
O grefft gwledig ddwylo ;
Ceid byw diddan dan ei do,
A'r heniaith oedd ber yno.

Eifion Wyn.

AR DRAWS YR HEOL.

(Gan Anthropos.)

"Mi groesais y stryd i gael gair efo chi,"

Dyna ddywedai dyn wrth hen gydnabod, y dydd o'r blaen. Y mae'r frawddeg yn un i feddwl am dani. Wrth gwrs, y mae pethau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth. Beth oedd lled y stryd? Oedd yno lawer o draffic ar y pryd? Gellid croesi'r stryd mewn ambell fan yn rhwydd a didrafferth. Nid oes yno foduriaid a wageni llwythog yn mynd a dod ar bob eiliad. Bryd arall, rhaid arfer gwyliadwriaeth, a bod yn llygadog rhag digwydd a fo gwaeth.

Nid oedd y dref y cyfeirir ati yn nodedig am brysurdeb o'r fath, ag eithrio diwrnod marchnad. Ond y mae rhai o'i hystrydoedd yn dramwyfa boblogaidd ambell awr o'r dydd.

Felly ar yr adeg yr oedd y dyn yn croesi i ysgwyd llaw a hen gyfaill. Nid busnes oedd yn galw am yr antur. Gallasai fynd heibio yn gysurus a didrafferth. "Mynd o'r tu arall heibio," fel y gwnaeth yr offeiriad a'r Lefiad yn y ddameg adnabyddus. Ond am ryw reswm, nid felly y gwnaeth. "Mi groesais y stryd i gael gair efo chi." Gwr o fusnes oedd ef. Dyn wrth ei swydd yn edrych ar bopeth gyda llygad y masnachydd. Ac eto, yr oedd yn cael ei gymell i fynd allan o'i lwybr, am dro, i ddim ond cyfarch gwell ar gyfrif hen gydnabyddiaeth oedd wedi mynd yn rhan o'r gorffennol.

Arwydd o hynny oedd ei waith yn croesi'r stryd. Gwnaeth rywbeth caredig. Yr oedd ei eiriau yn llawenhau'r galon. Dichon nad ydoedd yn *ymddangos* yn beth mawr nac eithriadol. Nid croesi mynydd na mor a wnaeth—dim ond croesi'r stryd. Eithaf gwir. Ond nid milltiroedd na llathenni sydd yn mesur pethau o'r fath. Y mae y cyfan yn dibynnu ar ystyr a phwrpas y weithred ei hun. Gall croesi ystafell, ambell waith, feddu cymaint o werth a chroesi cyfandir. Y neges sydd yn rhinweddu y weithred. "Mi groesais"—waeth beth—"i gael gair efo chi." Dyna'r cwbl. "Mor dda ydyw *gair* yn ei amser," ebe'r Gwr Doeth. Ac y mae'n bosibl trosglwyddo hwnnw wrth wneud peth mor syml a chyffredin a chroesi'r stryd.

Ac y mae peidio gwneud hyny dan rai amgylchiadau yn arwydd o ddiystyrwch a diffyg parch.

"Beth ydych yn ei feddwl am Hwn a Hwn?" Dichon fod y dyn yn arfer siarad yn gyhoeddus. "Dydw i ddim yn meddwl fawr ohono," ebe'r atebwr. "Yn wir, nid awn i'r drafferth i groesi'r stryd, er mwyn ei weled na'i glywed."

Fel yna y mae llawer yn dibynnu ar y modd y defnyddir yr ymadrodd. Yr ydym yn mynegi rhywbeth—edmygedd neu gondemniad pan groeswn neu pan beidiwn groesi'r stryd.

Perthyn i ddosbarth yr edmygwyr yr oedd y dyn yr ydym wedi cymryd ein dameg oddiwrtho y waith hon. Daliodd ar gyfleusdra damweiniol, gan wybod, mae'n debyg, y gallasai amser maith fyned heibio cyn iddo weled y gwrthrych eilwaith—feallai na ddychwelai'r cyfle byth wedyn—"It may be for years, it may be for ever."

A chan feddwl felly gweithiodd ei ffordd drwy y traffic, a chroesodd y stryd. Nid oedd yn ennill dim mewn ystyr fasnachol, ac nid oedd y gwr a gerddai yr ochr arall yn cael ei gyfrif ym mhlith yr anfarwolion, ond yr oedd tant cyfeillgarwch wedi ei gyffwrdd—y *wireless* rhyfedd—sydd yn cludo brysneges i orsaf ymwybyddiaeth—ac yn sibrwd—"Dos." Aeth y dyn yn gludydd *sentiment*—y peth hwnnw nad ydyw cylchoedd celyd masnach a gwaith yn ei gydnabod, nac yn ei ddeall o gwbl.

Rhyw linell union ydyw bywyd yng ngolwg rhyw ddosbarth. Rhaid

dyfeisio rhyw *short cut* i gyrchu at bopeth. Pan gerddwn y palmant rhaid cadw ar y naill ochr, gan brysured ydyw pobl i fynd at ryw fusnes. Y mae'r hen hamdden wedi ymado, pan fyddai pobl yn treulio pum munud i gyfarch gwell. Dim ond *nod* sydd yn ddigon yn awr. Ac os dywedir gair, ni fydd hwnnw yn cyfleu nemor oleuni na diddanwch.

Ond y mae croesi'r stryd yn rhywbeth sydd yn dod a'r dyddiau gynt yn ol. Ac y mae hyny yn tybied rhyw gymaint o ymdrech, a rhyw gymaint o'r hyn a gyfrifai y prysur yn goll amser.

Yr oedd dyn a wnaeth felly yn gwybod am werth amser cystal a'r cyffredin. "Time is money," ebe'r marsiandwr. Ond os nad ydyw amser yn rhywbeth amgen na chyfrwng i wneud arian, ac i geisio "gwneud" pobl eraill yn y fargen, nid ydyw yn cyrraedd ei wir amcan yn ei berthynas a dyn.

"Gwnewch i chwi gyfeillion o'r mamon anghyfiawn"; ond y mae trysor bywyd—y golud na heneiddia yr aur na thywylla—nid yn y llogell, ond yn y galon.

Ac y mae hwnw i fod yn gylchredol. Dylid ei *investio* yn ariandy cyfeillgarwch ac ewyllys da canys y mae'r banc hwnnw yn talu llog da. Nid oes neb yn mynd yn fethdalwr ym myd y trysor anllygredig.

Ac un o'r cyfranddalwyr oedd y gwr a groesodd y stryd i gael gair gydag un arall oedd a thipyn o siar yn y fusnes.

Y mae ymddygiad o'r fath yn werth ei efelychu. Gymaint o bethau ydym wedi ei golli wrth beidio croesi'r stryd. Meddylier am awduron llyfrau. Yr ydym yn mynd yn ddieithr iddynt yng nghwrs amser. Dichon y cyfyd ymddiddan ryw noson mewn cwmni.

"A ydych yn gwybod am y llyfr?"

"Ydwyf, ond y mae blynyddoedd er pan wyf wedi ei ddarllen. Ni allaf gofio ei gynnwys, ond yr wyf yn cofio i mi gael blas neilltuol yr adeg honno."

Gresyn na fuasai'r sawl a gyffesai fel yna am lyfr gwych yn efelychu'r dyn y soniwyd am dano. Dichon fod y llyfr yn aros ar y silff lyfrau, wedi ei orchuddio gan y llwch. Mor dda i'w berchen fuasai croesi'r stryd i gael gair gydag ef!

Dim ond hyny. Ond y mae adnewyddu hen gydnabyddiaeth yn un o brif fwynderau bywyd. Yr ydym yn cwrdd rhywun ar y stryd bob bore o'r newydd. Dichon y bydd rhywbeth yn eu gwisg a'u gwedd yn tynnu ein sylw ar y funud. Ond d'oes dim cyfathrach yn y pethau yna.

Y mae un peth yn bod ar heolydd llenyddiaeth. Yr ydym yn dod i gyffyrddiad a llyfrau newydd, ac awduron newydd. Gwelwn eu darluniau, a darllenwn hanes eu gorchestion fel nofelwyr a beirniaid. Ond ar gyfer hyn oll, yr ydym yn gwerthfawrogi y dyn a'r llyfr sydd wedi croesi'r stryd atom ni, ac wedi dweyd gair wrthym oedd yn newid lliw a hanes y stryd honno. Nid am y moduriau a'r traffic yr oeddynt yn meddwl wedi'r cyfarfod, ond yn hytrach am rywle sydd yn ymrithio ym mreuddwydion bywyd, ac yn ymddangos ar brydiau yn Ddinas Wen a'i heolydd o aur pur.

TY TO GWELLT.

Cydfuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, 1926.

A'th frig gwellt, a'th furiau can, ti ydoedd
I'n teidiau'n hoff drigfan;
Hen fwth eu hatgof weithian,
A hwy yn llwch yn y llan.

Mr. G. Rees, Harlesden, Llundain.

Y GOLUDOG A LASARUS.

A allech chwi hepgor ceiniog, os gwelwch yn dda, i hen wr tlawd."

Cerddwn o'r Glais i gyfeiriad Birchgrove. Yn wahanol i arfer yr oeddwn mewn myfyr dwys. Edrych o'm hamgylch y byddaf, fel rheol, pan fyddaf yn cerdded ffyrdd y wlad. Y mae cymaint i'w weled, ond y diwrnod hwn nid oeddwn yn gweled dim ond y ffordd o gylch fy nhraed. Yr oeddwn yn hanner ymwybodol fod rhywun yn eistedd ar bibell ddwfr fawr a droisid at y clawdd, ond ni throais i edrych arno. Yr oeddwn wedi myned heibio iddo pan dorrodd llais ar fy myfyrdodau, "Could you spare a copper, please, for a poor old man." Yr oedd rhyw fiwsig lleddf yn y llais, a theimlais fod ynddo swn dyfnder yn galw ar ddyfnder. Safais, a gwelwn hen wr yn edrych yn erfyniol arnaf. Yr oedd yn llwyd ei wisg ac yn llwyd ei wedd, ond yr oedd ei wyneb yn fwyn a hardd. Tonnai miwsig ei lais yn fy nghlustiau o hyd. Nid anghofiaf y disgwyliad oedd yn ei drem, ac eto yr oedd yno ryw awgrym yr ofnai mai'n ofer y ceisiodd, ac na synnai fy ngweled yn myned rhagof heb ateb ei gais. Gwelodd, yn ddiau, filoedd yn myned heibio heb gymryd arnynt ei glywed.

Nid euthum i, beth bynnag, er cof gennyf heibio heb roddi rhywbeth i'r sawl a geisiai, os bydd gennyf rywbeth yn gyfleus. Dywedir wrthyf yn aml fy mod ar fai ac mai camddefnyddio'r arian a wnant. Ni waeth gennyf i am hynny. A phwy ydwyf i i'w barnu? Ofni yr wyf i fod llawer ohonynt yn eu tlodi yn deilyngach dynion na mi. Beth a wyr llawer ohonom ni am y tymhestloedd a gurodd ein brodyr a'n chwiorydd i'r llaid ar ymylon y ffyrdd? Digon i mi yw bod Un mwy na mi wedi estyn ei law i godi'r tlawd o'r llwch a'r anghenus o'r domen, er i'r rheiny fod yn oferwyr ac yn buteiniaid. Y pechod a'r oferedd a welwn ni ac eir yn rhy aml o'r tu arall heibio. Fe wyr Ef hefyd am y pechod, ond fe wyr am rywbeth arall—y "stormydd mawr o demtasiynau, a'n curodd ni mor bell" a medr Ef gydymdeimlo.

Nid wyf i'n meddwl bod yr hen frawd a ofynnodd i mi'r tro hwn yn oferddyn. Yr oedd boneiddgeiddrwydd ei osgo, mwynder ei wyneb a miwsig ei lais, fel pe ceisiai ddweyd stori wrthyf. Ceiniog a geisiai. "A allech chwi hepgor ceiniog, os gwelwch yn dda, i hen wr tlawd?" Dywedais mai awgrym y teimlai mai'n ofer y ceisiodd a welwn ar ei wyneb pan edrychais. Pan roddais fy llaw yn fy mhoced, gwelwn rywbeth tebig i ddiolch am geiniog yn llonder ei lygaid. O Dduw!—paham y mae'n rhaid i hen wr, mwyn, a miwsig yn ei lais, ddiolch cymaint am geiniog! Gwelodd ddarn bach gwyn yn dod allan rhwng fy mysedd, a dyma'r llonder cyntaf a ddaeth i'w lygaid yn troi'n loewder annisgrifiadwy. Nid oedd y cwbl ond darn tair ceiniog, ond aeth y miwsig oedd yn ei lais wrth ddiolch a'r dagrau gloew oedd ar ei rudd yn ormod i mi.

Euthum yn fy mlaen. Ni wn beth a ddaeth drosof. Gwn nad wylais lawer o weithiau yn fy oes, ond teimlwn fy hun yn awr yn ysgwyd gan deimlad ac yn wylo fel plentyn. Yr oedd y geiriau—"A allech chwi hepgor ceiniog, os gwelwch yn dda, i hen wr tlawd," yn parhau fel nodau ar dannau telyn yn fy nghlust a'r diolch am dair ceiniog yn fy nghyffro i waelodion fy enaid.

Aeth fy meddwl i grwydro. Gwelwn fwg yn dod o simneiau uchel y gweithiau draw a gwyddwn fod yr hyn a gynhyrchai'r mwg yn dod a chyfoeth di fesur i ryw ychydig, ac

eto dyma hen wr mwyn yn ei ddagrau yn diolch am dair ceiniog. Gwelwn gannoedd o erwau o dir cystal a bod yn ddiffrwyth, ond pe ceisid mymryn ohono i godi cartref i rai sydd heb le i roi eu pen i lawr, byddai'r pris ar unwaith yn anhygoel. Euthum yn yr ysbryd i froydd breision Cymru, lle nad oes heddyw ond ambell blasty ac ambell amaethdy mawr i'w gweled a swn peiriannau ar y tir. Gwelwn y bythynnod a'r amaethdai bychain wrth y miloedd yn sarn. Teimlwn erbyn hyn nad llais un hen wr mwyn a dorrai ar fy nghlyw, ond llais tyrfa fawr o blant y gorthrwm megis taran yn rhwygo'r nef. Cofiais eiriau Iago: "A llefain y rhai a fedasant a ddaeth i mewn i glustiau Arglwydd y lluoedd."

A ydyw Ef yn clywed? Oni chlybuwyd ar hyd yr oesau lais proffwydi dewr yn bygwth arglwyddi byd? Ac er hyny mi glywais heddyw hen wr a miwsig yn ei lais yn cardota ceiniog! Ai nid gwag ydyw'r gleber am Dduw a'i lywodraeth a'i gyfiawnder? Bu bron i minnau a rhegi a melltithio'r byd a'i frad fel y gwnaeth un o'n hathrawon. Ond mi gofiais am yr Un a ddaeth ar neges o drugaredd a gras at y byd ac a fu ei hunan heb le y rhoddai ei ben i lawr. Cofiais mai barnu wrth y golwg y byddwn ni'n rhy aml a bod rhywbeth yn y byd nad ydyw'n amlwg i ni bob amser. Aeth fy meddwl at gardotyn tlawd arall a'i enw Lasarus a fwrid yn gornwydlyd wrth borth rhyw wr goludog "a wisgid a phorffor a lliain main, ac yr oedd yn cymryd byd da yn helaethwych beunydd."

Ymwelai pobl barchus a'r gwr goludog. Gwahoddid hwy yno a deuent ar feirch a mewn cerbydau. Croesawid hwy at fyrddau'n llawn danteithion. Meddyliai Lasarus druan am y gwleddoedd a geid o'r tu mewn i'r muriau hyny a'r fath fendith iddo ef a fuasai hyd yn oed y pethau a deflid i ffwrdd. Ond ni ddywedir ei fod yn cael hyd yn oed gymaint a hyny. Ei fwrw wrth y porth a wnai rhywrai yn ddigon diseremoni i geisio gan rai a ymwelai a'r plas. Yr oedd hyd yn oed gŵn yr heol yn cymryd hyfdra ar y cardotyn hwn—"ac a lyfasant ei gornwydydd ef."

Yr oedd y sawl a lefarodd y ddameg hon yn gweled yn ddyfnach na'r wyneb—yn gweled pethau—nid fel y byddant rywbryd ond fel y maent heddiw. Yr awgrym synfawr yw bod Lasarus, y cardotyn, yn ei dlodi yn well dyn na'r goludog. Bu'r cardotyn farw a bu'r goludog farw. Er syndod i mi mae'r cardotyn yn marw'n gyfoethog, a'r goludog yn marw mewn tlodi. Pe gallem ni weled yn is na'r wyneb gwelem heddiw lawer cardotyn yn gyfoethocach na'r goludog. Yr oedd angelion yn gweini ar y cardotyn a dygwyd ef i fynwes Abraham, nid am ei fod wedi byw'n dlawd yma, ond am ei fod yn ddyn da er ei fod yn dlawd. Aeth y goludog wrth farw i uffern ac i'r fflam i'w boeni. Dynoliaeth felly oedd ei eiddo ef.

Nid tan tragwyddol i boeni'r annuwiol sydd mewn golwg yn y ddameg. Y cwbl a ddysgir yw mai defnydd tan, a dim gwell oedd bywyd y goludog hwn. Nid oedd eisiau awr o ing i'w ddifa'n dragywydd.

Pan gofiais y ddameg hon a'i llefaru wrth y "Phariseaid, y rhai oedd yn ariangar ac yn gwatwar," tawelodd fy meddwl. Y mae Un, wedi'r cwbl, yn clywed, yn gweled ac yn barnu heddiw. Caf eto glywed miwsig llais yr hen wr mwyn, nid yng nghywair lleddf angen a thlodi, ond yng nghywair gorfoledd y Nef, ac wrth wrando arno, pwy a wyr na

"Bydd raid i Gabriel dewi
Yng nghanol Ty ei Dad?"

O'R "DARIAN."

YN Y RHIGOLAU.

Gwn am lôn fach yn y wlad heb wybod am gerrig na *roller* erioed. Cerddais hi ar law a hindda, ac os oedd lluwch yn unman, yr oedd ymhen y lôn. Ganol haf a'r haul yn ei nerth, y mae'n iechyd bod arni oherwydd chwery'r awel yn nail y coed. Ganol gaeaf a'r oerwynt yn trywanu hyd y mer y mae'n gysgodol a newid byd yw troi o'r briffordd i'r lôn fach. Ofer amau ei bod yn lleidiog ar dro ond ni ofelir am hyny yn y wlad. Nid yw'n union fel y saeth ychwaith ond try yn ol a blaen yn hamddenol ddigon fel pe bai'n mwynhau'r golygfeydd. Nid oes alw arni frysio oherwydd ni chostia ddimai goch i undyn byw. Cedwir ei chanol yn goch gan y cerdded anaml, ie'r cerdded anamlach na chynt. Gallasech feddwl eich bod ym mro hud o weld y ffion cochaf, y coesau brain glasaf, a chadwyni aur meillionen Ysbaen ar bob ochr iddi. Ni wyr neb brydferthed yw'r wlad nes troi o ddwndwr y byd i dawelwch rhamantus y lôn fach. Canodd Emrys "Rigymau'r Ffordd Fawr," ond nid yw rhigymau'r ffordd fawr i'w cymharu a barddoniaeth natur y lôn.

Fel pob lôn, ar bob ochr iddi y mae dwy rigol ddofn, fel dwy gwys—dwy ol cart.

Lawer gwaith yr oedais ar y lôn gan wylio'r ceffyl yn dod at ben y lôn. Cyn cerdded cam neu ddau y mae'r olwynion *yn y rhigolau* ac yntau'n cerdded y llwybr coch. Y mae'r hen gart yn gwybod ei le ac yn fodlon ei gadw. Nid oes amgen arwain y ceffyl. Medr ei cherdded a'i lygaid ynghau, ac yn hyn o beth y mae'n debyg i lawer yn cerdded drwy fywyd. Bob amser yn y rhigol a fynychaf a'r llygaid ynghau.

Y mae gan y ceffyl ei reswm dros hyn mae'n debig. Haws yw tynnu'r llwyth yn y rhigolau ac nid oes berigl ei ddymchwelyd. Y mae popeth yn burion ond peidio a son am ddod o'r rhigolau. Y mae bron yn amhosibl cadw'r ceffyl rhag mynd yn ei ol iddynt.

Cofiaf yn dda am ddyddiau'r ysgol gynt a rywsut y mae bore oes yn dod yn gliriach fel yr heneiddwn. Yr oedd yr hen gloch yn galw ar waethaf yr eira. Nid oedd dim am dani ond cerdded yn ol troed rhywun. Nid oedd rwystr yn y byd ond dilyn yr ol, boed gam, boed gymwys. Yr oeddem fel y ceffyl yn medru cadw yn y *rhigolau* a dyna i gyd. Myn y meddygon cymdeithasol fod llawer anhwylder yn blino'r werin, ond sicr dyma sydd yn ei damnio yw cerdded gormod *yn y rhigolau* ymhob cwrs o fywyd.

Dyma'r meddyliau a ddoe imi a minnau'n y ffenestr yn gwylio'r stryd ben bore. Euthum allan er gweled a oeddwn yn gywir. Nid hir y bum cyn cyfarfod a hen gyfaill o labrwr. Y mae'n weddol hirben a chrap ganddo ar rywbeth rhagor na'r llythrennau. Nid oes eisiau duwiolach bywyd na glanach moes. Y mae'n ddedwydd, ac y mae hyn yn fwy nag a fedrir ddywedyd am y mwyafrif o werinwyr. Tybiais ei fod yn caru gwaith er ei fwyn ei hun ac fod harddwch y bywyd syml yn apelio ato. Nid felly.

"Myfi oedd yr hynaf o ddeg o blant," meddai. "Labrwr oedd nhad. Yr oedd y ceiniogau'n brin a gorfu i minnau ddechreu labro'n fore." Dangosodd i mi ei ddwylo geirwon a gwyddwn ei fod yn dywedyd y gwir. "Cyn fy mod yn un ar hugain oed yr oeddwn yn wr priod a chyda cadw teulu nid oedd dim am dani ond labro, ie, labro hyd fy medd."

"Ie," meddwn gan droi ymaith am nad oedd gennyf ddim arall i'w ddywedyd. Cofais am y lôn fach yn ddigon prydferth ond cofiais ragor, cofiais nad oedd modd ei thramwy ond drwy'r rhigolau. Dyna oedd y labrwr, dyn *yn y rhigolau*. Ni ddywedaf na fedr y rhigolau ei arwain i'r Nefoedd, ond ei siawnsio y mae

oherwydd ni wyr. Rhaid mynd *yn y rhigolau* heb wybod i ble!

* * *

Y mae gwleidyddiaeth yn fara y bywyd i lawer o hyd. Cof gennyf a minnau'n blentyn fod y *lliw'n bwysig*. Ni ddywedaf nad yw eto ond nid yw'r lliw yn dal yn aml. Fel y mae gwaethaf y modd, y mae gormod o "golli'i liw," yn y byd heddiw. Gynt nid oedd dim am dani ond *lliw* oherwydd fod un lliw yn gyfystyr a gormes yn nhyb y werin. Adroddir hanesyn am hen wr syml a phlaen. Yr oedd yn Rhyddfrydwr i'r carn cyn belled ag yr oedd y lliw yn y cwestiwn. Daeth y scweier heibio adeg yr etholiad gan geisio darbwyllo yr hen wr nad oedd y coch cyn goched ag y ceisid ei liwio. Ni thyciai gyda'r henwr. Ffromodd y scweier gan awgrymu y pleidleisiai'r henwr gydag asyn o Ryddfrydwr. "Gwnawn," oedd yr ateb syml, "ond iddo fod yn asyn glâs."

Chwarddwn ni at onestrwydd yr henwr ond heb reswm yn y byd. Nid wyf yn sicr ychwaith ein bod gymaint yn fwy deallus nag ef. Mynych y trof at ambell un a holl duedd ei feddwl a'i fywyd i gyfeiriad neilduol yn myd gwleidyddiaeth. Y mae pob dadl o'i eiddo'n cyfeirio i'r un cyfeiriad. Gwyddys am stamp ei feddwl a'i natur ond y mae traddodiad yn rhy gryf. Ar ganiad y cornet a'r dulcimer rhaid ymgrymu, rhaid cadw *yn y rhigolau*.

Flynyddoedd yn ol adroddai hen gyfaill wrthyf ei brofiad. Sôn yr oedd am dano'i hun yn cynnyg am sedd ar ryw gyngor neu gilydd ac yn colli. Fe'i gwrthwynebid gan yfwr trwm, o gymeriad moesol amheus ond cefnog. Disgwyliai yntau gefnogaeth llwyrymwrthodwr o gymeriad moesol glân, ond fe'i siomwyd.

O feddwl am les y werin, anghofiodd y lliw, anghofiodd fod yna lu yn cerdded drwy fywyd yn y rhigolau.

* * *

Ar brynhawn Sul cymundeb pan fo'r hin yn deg a thrip wedi peidio bod, y mae'n werth sylwi ar y llu yn y dre'n croesi'i gilydd, pob un yn tynnu tua Jerusalem ei enwad ei hunan. Gwelir llawer o ymofyn dwr dros afon oherwydd fod sêl uwchlaw gwybodaeth yn fynych iawn. Nid beio mo fy amcan i ond traethu'r gwir fel yr ymddengys i mi. Gwn gynt fod esgus a rheswm dros yr ymraniadau hyn ond erbyn heddiw i raddau mawr iawn y maent wedi peidio a bod i bob ystyr ymarferol. Digon gwir fod y "cwerylon dibwys" yn bwysig gennym o hyd, ond pe gofynnid i galon onest pob addolwr y rheswm paham y try i Fethel neu Siloh, y mae'n amheus gennyf a fedrai'r hanner roi ateb boddhaol. Mynnid erlid heddiw onibai am gyfraith y tir. Trueni na buasai cyfraith y Crist a broffeswn ei ddilyn yn ddigon. Ni ddywedaf nad yw'r pwyslais wedi'i symud a da hyny. Ni ddywedaf ychwaith nad oes lawer syniad penllwyd wedi marw o henaint a gwendid. Maentumir fod yr oes hon ar y blaen ym myd gwyddor a gwybodaeth ac eto heb fod arni well enw na "*The age of puffed pastry*." Y mae'r werin er ei bod yn y golau yn mynnu cerdded *yn y rhigolau* ac ni cheir graen ar grefydd nes ei chael allan o'r hen *rigolau*.

* * *

Pwy ddydd darllenwn nofel newydd "The Key Above the Door," ac ynddi ceir awgrym neu ddau diddorol dros ben. Y mae ynddi gymeriadau "true to Nature" chwedl Wil Bryan a'r cymeriadau hyny wedi blino cerdded *yn y rhigolau*. Dro hir gellid tybio bu ofn credo cymdeithas arnynt ond o'r diwedd wele dorri'n rhydd a mynd. Nid aethant heb betruso llawer. Bu yno holi'u hunain dro ar ol tro ond myn un a wyr ateb pob amau a phetruso.

"Paham y daethom yma?" meddai. "Er bod yn ni ein hunain am dro byr—er cael gafael ynom ein hunain—er cywiro'n golwg o fywyd—er cymryd stock o fywyd—er colli'r dianghenraid—er cychwyn o'r newydd i fyw—yr holl bethau hyn a rhagor hefyd."

Credaf y buasai o les i enaid ambell grefyddwr i wneuthur yr un peth. Y mae yna gan fach Saesneg dlos

yn son am yr un peth ond odid, son am y Friar Hilary yn methu cael Crist i ymweled a'i gell er cymaint a weddiai. Yr oedd y gell yn rhy lawn o Friar Hilary i Grist ddod yno, ond un noson anghofiodd ef ei hun, anghofiodd ei weddiau o gofio'i frawd. Daeth Crist ato, pan adawodd ef y rhigolau ac yng ngeiriau'r nofel,—

"Ni ddylasai dyn fod yn gaethwas i fywyd neu yn hytrach i'w ddefodau. Ni ddylasai dyn fod yn fythol rwym wrth yr olwyn. Os nad hoffwch, ac nid oes eisiau air cryfach: os nad hoffwch y rhigol y rhedwch ynddi, ni ddylasai fod unrhyw amgylchiadau'n ddigon mawr i'ch cadw yn y rhigol honno."

Y MAES LLAFUR 1926—1927.

I. TRYDEDD DAITH PAUL (Actau XVIII, 23—XXI, 17.)

Gwers IV.—Paul a'r Consurwyr (Actau XIX, 11—20.)

Rhennir y wers i ddwy ran: (1) adn. 11, 12, yn y rhan yr amlygir inni'r argraff a wnaed gan Saul ar yr Ephesiaid. Sylwer ar gynnwys yr adnodau. (2) adn. 13—20, Ephesiaid. Sylwer ar gynnwys yr adnodau hyn hefyd.

Os gwir ydyw "mai'r ffurf uchaf ar edmygedd yw efelychiad," enillodd Paul edmygedd trylwyr un dosbarth o fobl yn Ephesus heblaw'r Cristionogion, sef, y consurwyr. Pobl oeddynt a gymerai arnynt fedru cyflawni gweithredoedd hynod, megis, iachau cleifion a bwrw allan gythreuliaid, drwy gyfrwng swynion. Ceid hwynt yn holl wledydd y dwyrain; ac ymddengys eu bod yn hynod o luosog yn Ephesus. A oedd Paul yn credu peth fel hyn? gweler adn. 12. Nid amhosibl ydyw na wnai. Yn unrhyw achos, ni wnai un ymgais i argyhoeddi'r bobl o'u camsynied a gwrthwynebu'r ofergoeledd. *Bwrw allan gythreuliaid.* Priodolid clefydau i ysbrydion drwg neu aflan. Cynnyrch anwybodaeth yw tybiau o'r fath hyn; ac ni ellir rhoddi coel arnynt, bellach. Yn ol y T.N., nid yn unig rhoddid coel ar y tybiau hyn gan yr Apostolion, ond gan Iesu hefyd. Ni raid inni, oblegid hyn, fod yn llaw-ysgafn yn ein triniaeth o honynt. Nid yw'r eglwys Gristionogol yn ein dyddiau ni yn rhydd o roddi cefnogaeth i'r coel-dybiau hyn: y ffynnon yn Loudres yn nebeubarth Ffrainc, i'r hon, fel y tybir, y perthyn rhinwedd iachaol; ceir Iesu ac un o hoelion y groes yn Eglwys Gadeiriol Treves, cyffyrddiad a'r rhai (fel yr honnir) a ddwg iachad i'r dioddefydd ffyddiog. Ymwelir a'r ddeule hyn a lleoedd eraill ar y cyfandir gan filoedd yn flynyddol. Y mae'r Eglwys Gatholig yn byw yn awyrgylch y goruwch-naturiol. Ond —ydyw'r Eglwys Brotestanaidd wedi llwyr ymddihatru o'r tybiau ofergoelus hyn? Nid ysbrydion drwg ydyw achosion clefydau.

Nodiadau: *Scefa*, neu Scewas yn ol y gwreiddiol a chyfieithiad diweddar. Ni wyddom ddim o'i hanes ond a ddywedir yma. *Deng mil a deugain o ddarnau o arian*: oddeutu £1900 (mwy neu lai) o'n harian ni.

Gwers V.—Cynnwrf yn Ephesus (Actau XIX, 21—41).

(1) Gwelir y bwriadai Paul ddilyn yn agos yr un llwybr ag yn yr ail daith. Atgofier y plant o gyfeiriad yr ail daith—o Troas, dros y mor i Neapolis; yna, trwy brif ddinasoedd Macedonia. Gweler Gwers VI. *Timotheus ac Erastus.* Atgofier y plant o brif ffeithiau hanes Timoth-

eus : genedigol o Lystra ; ei dad yn Roegwr, a'i fam yn Iddewes ; daeth Paul i adnabyddiaeth gyntaf o hono (cyn belled ag y gwyddom) yn yr ail daith ; yn debygol, fodd bynnag, yn y daith gyntaf ; o hyn allan bu cysylltiad rhwng Paul ag ef ; cyferchir ef ganddo fel " Timotheus, fy mab annwyl." Ni ellir dyweyd beth fu ei ddiwedd ; merthyrdod yn ol traddodiad.

(2) Meistrioler ffeithiau adn. 23—41 *Demetrius* : ni wyddom am dano ond a ddywedir yma. *Diana* : un o brif dduwiesau gwledydd y dwyrain, ac a elwid wrth wahanol enwau—Diana, Cybele, Artemus, Leto, etc. Duwies ydoedd a gynrychiolai nerthoedd cynhyrchiol natur. Adeilad o gryn hynafiaeth oedd ei theml yn Ephesus, a losgwyd yn 356 c.c., ond a ailadeiladwyd ar raddfa llawer eangach. Enillai llu mawr o drigolion y ddinas eu bywioliaeth wrth wneuthur a gwerthu delwau o'r deml i'r addolwyr. Nid rhyfedd ydyw i Demetrius a'i gyd-weithwyr godi yn erbyn Paul a'i gyd-Gristionogion. Golygai llwydd iant Paul aflwyddiant iddynt hwy a cholli ohonynt ffon eu cynhaliaeth. Daw bywioliaeth dyn yn agos iawn ato. Beth wnaethem ni pe baem yn lle Demetrius ? Torrwr delwau trwsgwl oedd Paul. Beth olygir wrth " dorrwr delwau " ? Un a ddarbwylla bobl i ymwrthod a delwaddoliaeth ; yn achos Paul, un a dysgai'r bobl i ymwrthod a phob math ar ddelw-addoliaeth, ac addoli'r Unig Wir Dduw—y Duw a addolid gan Baul (darllener Act. XVII, 22—29). Llonyddwyd y cynnwrf gan " ysgolhaig y ddinas " ; neu ysgrifennydd y ddinas, a etyb i'r " town clerk " ein trefydd ni. Sylwer ar a ddywedodd. Ysbryd i'w edmygu yw'r eiddo ef. Bu Paul yn Ephesus am o gwmpas tair blynedd. Tymor o ddiwydrwydd anarferol a fu hwn ; a sefydlwyd nifer luosog o Eglwysi yn y dinasoedd cylchynol, gwyddom enwau rhai o honynt—Ephesus, Philadelphia, Laodicea (Dat. I, 11). Yn ystod y tymor hwn, hefyd, yr ysgrifennodd I Cor. *Alexander* : gweler I Tim. I, 20. Ai yr un yw'r ddau ni ellir dyweyd.

Gwers VI.—Parhad o'r Daith (Actau XX, 1—16).

Perodd y cynnwrf yn Ephesus i Baul ymadael oddiyno a mynd rhag ei flaen. (1) Dilynodd yn agos yr un llwybr ag yn yr ail daith—trwy Macedonia, hyd " dir Groeg." Byr yw'r disgrifiad o'r daith ; ond naturiol yw'r casgliad iddo ymweld a rhai (os nad yr oll) o'r lleoedd y bu ynddynt o'r blaen—Philipi, Amphipolis, Apolonia, Thesalonica, Berea, Athen (efallai, er nad yn debygol), yw'r casgliad iddo ymweld a rhai (os nad yr oll) o'r lleoedd y bu ynddynt o'r blaen—Philipi, Amphipolis, Apolonia, Thesalonica, Berea, Athen (efallai, er nad yn debygol), Corinth.

(2) Ar ol aros tri mis yng ngwlad Groeg, trefnodd i ddychwelyd i Syria. Casglwn y bwriadau fynd dros y mor ; ond iddo, oblegid rhyw gynllwyn ar du ei elynion, newid ei feddwl, a dychwelyd trwy Facedonia.

(3) Sylwer ar enwau ei gwmni. Casglwn i'r rhai hyn fynd tros y mor i Droas, gan fwriadu aros yno hyd ddyfod Paul atynt. Yr oedd rhywun hefyd : " *nyni* a fordwyasom." Bernir gan rai mai Luc oedd un o honynt ; eithr nid oes sicrwydd.

(4) O Philipi (Neapolis, yn hytrach) mordwyodd Paul a'i gwmni i Droas, lle y disgwylid hwynt gan y personau a enwir yn ad. 4. Sylwer ar gwrs y gweddill o'r daith—Troas, Asos, (aeth Paul dros y tir, a'r cwmni dros y mor), Mitylene, Chios, Samos, Trogylium, Miletus. Sylwer ar y lleoedd hyn ar y daearlen.

(5) Sylwer ar hanes yr anffawd i Eutyclius. Dywedir i Paul " ymresymu (bregethu) yn hir." Nid rhyfedd iddo gysgu.

II. HANES IESU HYD DEUDDEG OED.

Ymha le ganed Iesu sydd ofyniad anodd. Dywed Mathew a Luc iddo gael ei eni ym Methlehem. Ni ellir rhoi pwys mawr ar y dyb hon. Y tebygolrwydd ydyw—iddo gael ei eni yn Nazareth. Yr ydym ar dir sicrach pan ddeuwn at ei febyd : yn Nazareth y treuliodd yr oll o'i fywyd hyd ddechreu ei weinidogaeth.

(1) *Nazareth* : tref yng Ngalilea, (yn bresennol) gyda 15,000 o boblogaeth. Talaeth ffrwythlon oedd Galilea —" gardd Palestina, a Nazareth ynghanol yr ardd. Plentyn y wlad, felly, oedd Iesu ; a hawdd ydyw gweld effeithiau ei amgylchedd arno yn hanes ei weinidogaeth : yr hauwr yn hau, yr arddwr yn aredig, yr adar yn difa'r had, drain yn tagu'r had, yr efrau yn y gwenith, etc.

(2) *Ei rieni* : Joseph a Mair oedd eu henwau. Saer wrth ei alwedigaeth oedd Joseph. Ni ellir dyweyd beth oedd eu hamgylchiadau—tlawd yn debygol.

(3) *Ei addysg* : casglwn i Iesu fod yn yr ysgol ; oblegid darllenwn y medrai ddarllen (Luc IV, 16—18) ac ysgrifennu (Ioan VIII, 6), a meddai wybodaeth eang a chywir o'r ysgrythurau. (Yn y synagog y cedwid yr ysgol. Atebai'r synagog dri amcan ; ysgoldy, llys barn, ac addoldy. Ymhellach, gofalai pob rhieni Iddewig i addysgu eu plant yn drwyadl yn hanes eu cenedl a'u crefydd. Dyma'r tri dylanwad a fu yn ei baratoi ar gyfer gwaith ei fywyd : (*a*) amgylchynedd ; (*b*) rhieni crefyddol ; (*c*) y synagog. Ymhelaethed yr athro ar bobun o'r tri.

GALLT Y WERNDDU.

Saif fferm y Wernddu wrth odre gallt o'r un enw, ac o'i blaen ymestyn dolydd eang hyd at lan afon Teifi. I blant y pentref enw llawn dychryn ac ofn oedd yr enw Wernddu. Credem mai gallt y Wernddu oedd cartrefle'r holl bethau ofnadwy a barai ofn inni o bryd i bryd. Pan ai'n nos weithiau, a ninnau ar ganol ein chware, teimlem yn aml mai bendith fwya'r byd fyddai llosgi'r allt honno. Yr oedd pob bwgan, pob ysbryd a phob cri oer dolefus—ffrindiau lluosog ein rhieni wrth ein cymell i adael ein chware a dod i'r ty—a'u cartref rywle y tu mewn i allt y Wernddu. Ni wyddem ni ddim y pryd hwnnw am brydferthwch glesni dail ir y coed, nac am ysblander y lliwiau amryliw yn yr Hydref. I feirdd y pentref ffynhonnell ysbrydiaeth oedd prydferthwch dihafal gallt y Wernddu, ond inni ffau ysbrydion oedd. A pha ryfedd felly bod rhyw ofn a dychryn yn yr enw inni bob amser, ac nad edrychem ar y bobl a drigai wrth ymyl yr allt a rhyw hoffter mawr. Lled-ofnem fod rhyw berthynas bell a dieithr rhyngddynt a'r bodau amheus a drigai yn nhywyllwch dychrynllyd yr allt. Ac yma wrth odre'r allt honno yr oedd Siaci yn was yn y Wernddu.

Yr oedd teulu'r Wernddu yn anffodus iawn bob gaeaf. Rywsut neu'i gilydd, o'r braidd yr ai un gaeaf heibio na chollent geffyl, buwch neu ychydig o ddefaid, ac yr oedd colli gwair neu ysgubau yn beth cyffredin ddigon. Tosturiai pawb wrthynt yn y pentref, a synnai pawb sut y gallai dynion fod mor galon galed a dwyn gwair ac ysgubau oddiwrth bobl yr oedd eu colledion mor aml a lluosog eisioes. Eleni, fel yn y blynyddoedd gynt, gwel Tomos y Wernddu eisiau ysgubau a gwair, ond er pob gofal a gwylio, ni allant ddod o hyd i'r sawl a'u dwg. Y mae gan bobl y pentref eu barn, ond y maent bron

i gyd cyn ddoethed a thewi. Ond ni welem ni, fechgyn y pentref, lawer o ramant na thebygolrwydd yn esboniadau tawel gofalus pobl hŷn na nyni, a doethach hefyd yn eu tyb eu hunain. Ond inni nid oedd unrhyw beth yn rhyfedd yng ngholli ysgubau o'r Wernddu.

Nos Lun diweddaf eisteddai Wil y Fron, Twm y Gof, Ianto'r Saer a minnau wrth ochr ffenestr siop Williams. Bechgyn yr un oed a minnau yw'r rhain, ac nid gof a saer mo Twm a Ianto, er y gallech dybied hynny. Mab i'r gof yw'r naill, a Saer yw tad y llall. Yr oeddem newydd ddod o'r Cwrdd Plant. Yr oedd yn rhy dywyll i chware marbls, ac aethom i aros wrth Siop Williams. Siop ryfedd yw hon. Y mae popeth ar werth yma, ond y peth rhyfeddaf ynddi yw'r goleu sydd yma. Dyna lampau rhyfedd—dim pabwyr, dim mwg, a dim olew. Y mae pel o wydr yn hongian ac ynddi y mae llinellau goleu fel mellten wedi ei chadw mewn cas gwydr. Y mae goleu iawn gan y lampau hyn. Goleu lectric, neu rywbeth felly, y geilw'r ysgolfeistr ef. Wel, aethom i eistedd ar bwys y siop hon, ac yng nghanol goleuni llachar siop Williams yr oeddem i gyd yn ddigon dewr i son am y Wernddu.

Wedi son am helyntion y dydd,—am Dai'r Gelli yn cael dwy slap ar ei law gan yr ysgolfeistr y diwrnod hwnnw, ac am Wil y Nant yn chwerthin ar hanner ei adnod yn y Cwrdd Plant y noson honno, dyma Twm y Gof yn dechreu son am y Wernddu. Buasai Siaci, gwas y Wernddu yn yr efail y diwrnod hwnnw a dywedyd bod ysgubau yn mynd ar goll o'r Wernddu y gaeaf hwn eto. A dyma Twm a gwen ddireidus ar ei wyneb yn ceisio dynwared geiriau ac ataldywedyd Siaci. "Ond p-p-peidwch chi a b-b-becso, mi d-d-dala i e cyn b-bo hir. Rwy'n c-cysgu ar b-bwys y sgubor nawr." "O pa ryfedd" ebe Ianto "bod ysgubau yn mynd ar goll; y mae'r fferm a'r ysgubor mor agos i allt y Wernddu." "Dyna beth rhyfedd mai yn y gaeaf yn unig y mae'r pethau hyn yn mynd ar goll," ebe Wil, yntau. Bu tawelwch am amser hir, heb ddim i dorri arno ond swn Teifi yn llifo a'r dwr dros ei cheulannau. "Dyna dawelwch sydd yng ngallt y Wernddu yn y dydd" ebe finnau ymhen tipyn. "Ond y mae'n wahanol gyda'r nos." ebe Ianto. Buom yn siarad a'n gilydd am amser maith, ac inni yr oedd popeth yn glir. Creaduriaid y nos oedd trigolion gallt y Wernddu. Po dywyllaf y byddai, cliriach y gwelent hwy. Pan gysgai pobl y pentref yr oedd yn ddydd ar y bodau hyn. Gadawent berfedd yr allt, ac aent am dro hyd ei hymylon i chwilio am ysglyfaeth. Doi bwgan allan weithiau dro arall ysbryd, wedyn rhyw wrach hagr, ac aent hyd ymylon yr allt. Cerdded yn araf hyd y llwybrau, gan wichian ac ochain yn enbyd. Aent i bob man lle y caent ysglyfaeth gan adael rhyw glefydau a heintiau ar eu hol. Doi rhai ohonynt ag ysglyfaeth yn ol i ganol yr allt enbyd, a rhuthrent oll, yn anifeiliaid rheibus, gwrachod hagr, ysbrydion dychrynllyd a bwganod hyll, yn bendrambwnwgl ar bennau ei gilydd i ymladd am yr ysglyfaeth. Rhyw eco o'r ymladd creulon hwn a glyswem ni bob un pan ar ddihun ganol nos weithiau, ac wedi ei glywed, aem a'n pennau dan y dillad er mwyn bod yn ddiogel. Ac yno y buom ni, bedwar ohonom, yn niogelwch goleuni lampau rhyfedd siop Williams yn esbonio colledion mynych Tomos y Wernddu, heb yr un ohonom yn amau sicrwydd a chywirdeb ein hesboniad. Diolchais lawer fod Wil y Fron yn dod adref yr un ffordd a minnau y noson honno, ac ar ein ffordd adref buom yn son am yr amser dymunol a gawsem yn y Cwrdd Plant er mwyn anghofio gallt y Wernddu a'i phreswylwyr enbyd.

Ddoe euthum i gyda mam draw i fferm y Wernddu. Fe'm teimlwn fy hun yn ddiogel ddigon yn y dydd yn enwedig yng nghwmni mam. Echnos yr oedd yn nosos ystormus iawn. Rhuai'r gwynt yng nghoed gallt y Wernddu, a diwreiddiwyd llawer pren talgryf a ymddanghosai'n gadarn ddigon y diwrnod cynt. Yr oedd afon Teifi dros ei cheulannau, ac wrth groesi'r ddol y diwrnod hwnnw, ni allwn lai na meddwl am Siaci yn cysgu mewn ysgubor ar noson mor enbyd.

Pan gyrraeddasom y ty, yr oedd yn amser bwyd yno. Eisteddais i a mam ar y fainc o dan yr hen simne lwfer, gan wrando ar yr ymddiddan. Yn ddisymwth, dyma Siaci yn synnu pawb—ie, synnu a phensyfrdanu pawb, oherwydd os gwir ei eiriau dyma allwedd i ddirgelwch misoedd lawer. Dywedai iddo weld y lleidr yn dwyn yr ysgubau.

Gwrandawai pawb gan ddisgwyl iddo fynd ymlaen a'r stori. Ni wrandawai un yn fwy astud na mi, oherwydd meddyliais am fy nghyfeillion yn y pentref. Mor ddymunol a fyddai disgrifio un o fodau rhyfedd gallt y Wernddu iddynt y noson honno o flaen siop Williams, a'm disgrifiad yn ddisgrifiad cywir o enau llygad-dyst.

"Gwelais ef yn dod i lawr dros y fron y tu ol i'r fferm," ebe Siaci, yn araf deg gan fod atal dywedyd arno. "Y mae'n cerdded dros y clos ac yn dod i ddrws yr ysgubor,."

Gwelais fod ein hesboniad yn gywir oherwydd o gyfeiriad gallt y Wernddu y gwelsai Siaci ef yn dod.

"Y mae'n gafael yn y glicied, yn agor y drws yn ddistaw, ei gau, a gosod llywanen ar lawr yr ysgubor. Y mae'n gosod yr ysgubau yn y llywanen; yn ei llanw, ac wedyn yn ei chlymu yn dynn. Y mae'n codi'r llywanen ar ei gefn, ac yn mynd i maes drwy'r drws."

"Ie, cerdd ymlaen," ebe Tomos gan wrando a'r diddordeb mwyaf.

'Aeth wedyn drwy'r glwyd sy'n arwain i'r ddol. Dyma fe'n cerdded drwy'r ddol i gyfeiriad yr afon."

Wrth glywed hyn, daeth rhyw ias oer drosof. Ofnwn fod y bod rhyfedd hwn o allt y Wernddu wedi ffoi i'r pentref. Ac os deuai un yno, odid na ddeuai rhagor y noson honno i chwilio am dano.

Yr oedd pawb o'r cwmni yng nghegin y Wernddu yn hapus ddigon yn gweled yn awr na phoenid mo'r teulu wedi dal y lleidr hwn. Ychydig a wyddai fy mam am y gofid a gronnai yn fy nghalon wrth feddwl mai i gyfeiriad y pentref y cyfeiriasai'r lleidr ei gamre.

"Pan oedd ryw ugain llath o'r afon dyma'r lleidr yn rhoi ei faich i lawr," ebe Siaci, "ac yn cymryd hoe. Wedyn cwyd ef ar ei gefn eilwaith, a cherdd tua'r afon."

Erbyn hyn yr oeddwn i yn fawr fy nychryn. Os croesodd yr afon, gwae nyni fechgyn y pentref. Doi'r giwed o'r allt i edrych am eu cyfaill crwydr. Oni chroesasai, odid nad aeth yn ol eto i'r allt.

Ond dyma Tomos yn gofyn y cwestiwn pwysig. "I ba le y gwelaist ef yn mynd wedyn?" a phawb yn tybied y gallent ddod o hyd i gartref y lleidr, ond cael gwybod ei lwybr am dipyn bach eto.

"Mynd wedyn!" ebe Siaci.

"O, fe ddweda i wrthych chi. Dihuno wnes i wedyn."

* * *

Collir ysgubau o hyd o'r Wernddu, ac er bod Siaci yn eu twyllo weithiau ac yn dywedyd hyn a'r llall ynglyn a'r colledion, ni wyddant ddim am y lleidr. Y mae'r plismon yntau ar warthaf y lleidr, ond nis daliwyd hyd yn hyn. Nid oes un syniad gan neb bron pwy ydyw. Ond y mae Wil y Fron, Twm y Gof, Ianto'r Saer a minnau, yng ngoleuni diogel lampau siop Williams yn unfryd unfarn mai o dywyllwch dychrynllyd gallt y Wernddu y daw goleuni ar golledion mynych yr hen Domos.

J.T.J.

Llandysul, Ceredigion.

BEDYDD.

ALLTYBLACA.—Sul, Medi 12, gan y Parch. L. Williams, gweinidog, a cherbron y gynulleidfa, cyflawnwyd yr Ordinhad o Fedydd ar Annie Caroline, baban Mr. a Mrs. Thomas, Pantygogledd, Llanllwni.

PANTEG A CHWMWRDU.

Yn ystod yr haf ymwelais a Phanteg a Chwmwrdu ar gais, rhyw ymweliad answyddogol er gweled, a chredaf nad oes le i anobeithio ond mewn difaterwch. Ym Mhanteg cefais gystal cynulliad brynhawn a hwyr ag a gawswn mewn llawer o'n heglwysi yn Sir Aberteifi. Ni wn i y teimlad, ond credaf y dylasai'r gymdeithas wneuthur rhywbeth. Yng Nghwmwrdu yr oedd y capel bach yn llawn a phobl yn gofyn paham na buasem yn ceisio adgyweirio ychydig arno er ei wneuthur yn fwy cysurus. Nid oedd gennyf un ateb i'w roddi am nad oedd gennyf un hawl yn y cwestiwn.

O hir feddwl, deuthum i'r penderfyniad i roddi awgrym. Rhyw flwyddyn yn ol, yr oedd yma fachgen a gymeradwywyd yn cynnyg ei hun i'r Weinidogaeth. Oherwydd amgylchiadau anorfod ni fedrai fynd i'r Ysgol. Yr oedd y drws wedi'i folltio gan amgylchiadau. Tybed nad oes gwawr o gyfeiriad yr achosion gwan sydd ar wasgar. Ai ni fedrid ei apwyntio yn "Layworker" a gofal yr achosion gwan hyn arno? Gŵyr llawer am arholiad y National Conference. Ni fedr neb ei heistedd oni bydd gofal eglwysi arno. A fyddem yn lladd ysbryd y rheol pe apwyntid ef gan y Gymdeithas er rhoddi cyfle iddo ef eistedd yr arholiad ac er budd yr achos yn y Sir ryw ddydd hwyrach. Credaf fod yr awgrym yn hollol deg a gonest a dim yn eisiau ond ychydig bach o fenter a chalondid.

T.O.W.

MARWGOFION.

Dydd Mawrth, Awst yr 28ain, bu farw Miss Margaret James, Shelone Cottage, Briton Ferry, yn ddeunaw oed. Merch ydoedd i Mr. Tom James, mab Mr. Walter James, Tanyrallt, Llandysul, a Mrs. Elizabeth James, merch Mr. Watkin Davies, Tanyfron, Llwynrhydowen, a'i mam yn chwaer i Mr. T. Davies, Capel Dewi. Dro yn ol pan fu Margaret gyda ei rhieni yn nhe parti ar fynydd Gellionnen yr oedd yn edrych yn llawn nwyfiant ac iechyd, ac yn edrych yn un fel y dywedir y gallesid cymryd yswiriant ar ei bywyd. Ond cydiodd nychdod y ddarfodedigaeth ynddi. Bu am dair wythnos ar ddeg yng nghlafdy Abertawe, daeth lawer yn well am dymhor, gobeithiai ei theulu ei bod yn cael y trechaf ar ei dolur, ond daeth tro er gwaeth, ac ymadawodd a'r fuchedd hon yn ddim ond deunaw oed. Fel blodeuyn yn ymagor am dymor byr, ac yna y mae gwynt y dwyrain yn chwythu drosto, ac y mae yn gwywo. Yr oedd Margaret yn dalentog ac addawol. Yr oedd yn gerddor medrus a lwyddiannus, ac yr oedd ei holl galon ym myd cerddoriaeth. Hi oedd cyfeilydd y "Briton Ferry Operatic Choir." Ac yr oedd y Cor yn gryno yn ei hangladd, yn arwain yn canu yr emynau Cymraeg a Saesneg a ganwyd yno. Claddwyd hi dydd Sadwrn Awst yr 28ain. Yr oedd yr angladd yn gyhoeddus, a'r dyrfa yn anarferol o luosog. Claddwyd yng Nghladdfa Gyhoeddus Ynysmaerdy, a gwasanaethwyd gan y Parchedig Ficer y plwyf, a'r Parchn. Mr. Williams (A), a D. G. Rees. Cydymdeimlwn yn ddwys a'r chwaer, a'r ddau frawd ac a'r rhieni yn eu galar tost wrth golli un oedd mor addawol, ac mor annwyl ganddynt.

Ar yr 31ain o Awst, bu farw David Evans, Maesllwyd, ger Cribyn yn 72 oed. Bendithiwyd ef a chyfansoddiad cryf, a mwynhaodd iechyd da drwy ei oes, hyd o fewn i ychydig fisoedd i'w farw, pan ddechreuodd ei iechyd ddirywio, eithr nis cyfyngwyd i'w wely hyd o fewn i ychydig ddyddiau i'w farw. Gadawodd mewn galar ar ei ol briod, a chylch eang o berthynasau. Dyn tawel a mwynaidd ei dymer a chywir ei rodiad ydoedd, a pherchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capel Cribyn y dydd Sadwrn dilynol, pan ddaeth

tyrfa fawr ynghyd i dalu iddo'r gymwynas olaf. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, pregethwyd yn y Capel a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle.

Medi 2, Hannah, annwyl briod David Thomas, Lonlas, Talgarreg yn 66 oed. Gadawodd briod ac un ferch i wylo ei cholli. Ychydig iawn o'i thylwyth ei hun sydd yn aros, er hynny mae yna lu o gyfeillion a chyfeillesau yn teimlo fod eu byd yn wacach am ei bod hi wedi mynd. Ers blynyddoedd cyfyngyd hi bron yn hollol i'r ty a'r aelwyd gan lesgedd a gwendid : yr oedd ei chorph yn rhyfeddol o fregys ond yr yspryd yn gryf a bywiog. Llawer tro y cawsom le i feddwl ei bod yn ffarwelio ond mynu gwella wnai hi—bellach wele ei lle yn wâg. Os yn rhy wan i wneud rhyw lawer o waith llanwai ei chadair a'i haelwyd a gwên siriol ac ymgom flasus yn enwedig pan soniai am bethau "ys llawer dydd." Claddwyd y Sadwrn dilynol ym Mhisgah lle roedd yn aelod ffyddlon hyd y gallodd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. George Davies (A), T. Lloyd (E), a E. O. Jenkins.

NODION YR EGLWYSI.

ADRAN YR YSGOL SUL—Wele restr o'r cyfraniadau a dderbyniwyd eleni : Y Graig, Llandysul, £2/1/0 ; Capel y Bryn, £1/0/2 ; Capel y Groes, 15/- ; Bwlch y Fadfa, 13/- ; Cribyn, 12/- ; Alltyblaca, 11/- ; Rhyd y Gwin, 10/3 ; Pantydefaid, £3/7/0. Y swm mewn llaw ar y laf o Fedi, 1926 ydoedd £22/12/10.—Cledlyn Davies, *Trysorydd.*

LLWYDDIANT.— Pleser mawr gennym ydyw hysbysu fod David Lloyd Lewis, trydydd mab Mrs. Lewis, Penybont, Llanybyther, a'r diweddar Mr. J. T. Lewis, Ysgolfeistr, Dolgwm Council School, Pencarreg, wedi pasio arholiad yr Oxford Senior. Dymunwn lwyddiant pellach iddo eto.

APEL.

Pob un na welodd yr Apel yn "Ymofynnydd" Medi, yr wyf yn ceisio ganddo ei ddarllain. Pob un sydd wedi'i ddarllain, gweithreded. Llunier i gall hanner gair.

	£	s.	c.
Addewidion yn "Ymofynnydd" Medi	23	17	0
D. Martin Jones, Ysw., Y.H., Gwion Castle	2	2	0
Y Parch. Lewis Williams, Alltyplaca	1	1	0
Dosbarthwr "Yr Ymofynnydd" ym Mhantydefaid	0	5	0
	£27	5	0

Gobeithio y medrir erbyn y Nadolig gael y ddyled i lawr i'r hanner o leiaf. Credaf mai nad allan o le a fuasai awgrym ymhob Eglwys i'r pwynt a hwyrach y buasai hynny'n help i ledaenu cylchrediad y Cylchgrawn.

Dymuna'r Cyhoeddwyr gydnabod yn ddiolchgar iddynt dderbyn y symiau canlynol yn ystod mis Medi—

	£	s.	c.
Dienw	0	5	0
Mr. W. S. Jones, M.A.	1	1	0
Y Parch. Lewis Williams	1	1	0
Mr. Jonathan, Cilie	0	10	0
	£2	17	0

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn. "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,

CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.

For Suits and Costumes to order from 50s.

—Mourning at Shortest Notice.—

. . . Satisfaction Guaranteed. . . .



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland ; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland ; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.